

Pŵer solar



Pa mor fawr fyddai angen i banel solar fod er mwyn pweru cartref yn Nghymru?


Gall cartref nodweddiadol yng Nghymru ddefnyddio naill ai drydan neu nwy i gynhyrchu gwres ar gyfer y tŷ, y dŵr twym, y peiriant sychu dillad a'r ffwrn. Pe baech yn pweru tŷ drwy ddefnyddio trydan solar, byddech yn siŵr o ddefnyddio offer nwy gymaint byth ag y gallech gan fod trydan solar mor ddrud. Mae hyn yn golygu y byddech yn defnyddio trydan solar ar gyfer pethau megis yr oergell, y golau, y cyfrifiadur, y teledu, offer stereo, y peiriant golchi a gwyntyllau trydan.

Bydd angen tua 800W o bŵer ar gyfartaledd ar bob un o'r pethau hyn. Dyw hyn ddim yn fawr o gwbl – mae tegell sy'n berwi'n gyflym iawn yn defnyddio 3000W o drydan.

Mae'r panel solar cyffredin yn cynhyrchu tua 10 mW / cm² ar ddiwrnod heulog braf.



Pŵer Solar



- Beth fyddai maint y panel solar fyddai ei angen arnoch?
- Pa dybiaethau rydych chi'n eu gwneud?
- Beth arall fyddai ei angen arnoch, ar wahân i'r panel, er mwyn gwneud system ymarferol yn ymarferol?

Mae paneli solar yn costio tua £1,000 / m². Faint fyddai cyfanswm y gost a thua faint o amser fyddai ei angen i chi gael arian yn ôl?

Ystyriwch y byddai'r paneli solar yn arbed £120 y flwyddyn i chi ar eich biliau trydan.